




**Cyngor Gwynedd Council**  
**Cynllun Darparu Gwasanaeth Gwarchod y**  
**Cyhoedd 2016-17**  
**Diogelwch Bwyd ,Hylendid a Safonau Bwyd**





## TABL CYNNWYS

<b>DIFFINIADAU</b>	<b>4</b>
<b>1.0 CYFLWYNIAD</b>	<b>5</b>
<b>2.0 AMCANION Y GWASANAETH</b>	<b>6</b>
2.1 Nod	6
2.2 Amcanion	6
2.3 Cysylltiadau ac Amcanion Corfforaethol	7
2.4 Mesurau Monitro Perfformiad	10
<b>3.0 CEFNDIR</b>	<b>12</b>
3.1 Proffil Gwynedd	12
3.2 Strwythur y Sefydliad a Llinellau Adrodd	13
3.3 Sgôp yr Uned Diogelwch Bwyd a Uned Safonau Masnach	13
3.4 Gwasanaethau / Partneriaid Allanol Arbenigol	15
3.5 Lleoliad y Gwasanaethau	15
3.6 Gofynion ar yr Uned Diogelwch Bwyd	15
3.7 Polisi Gorfodaeth	17
<b>4.0 DARPARU'R GWASANAETH</b>	<b>18</b>
4.1 Ymyraethau Mewn Eiddo Bwyd	18
4.2 Ymyraethau Hylendid Mewn Cynhyrchwyr Cynradd	19
4.3 Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cenedlaethol	19
4.4 Rhaglen Ymyrraeth Hylendid Bwyd Cyngor Gwynedd 2015-16	20
4.5 Rhaglen Ymyrraeth Safonau Bwyd Cyngor Gwynedd 2015-16	21
4.6 Ymyrraeth Hylendid Bwyd Cynhyrchiad Cynradd	21
4.7 Torri Deddfwriaeth Ddifrifol	22
4.8 Ail Ymweliadau Gorfodaeth	23
4.9 Ail Ymweliad Yn Dilyn Cais Am Ail Sgorio'r Sgôr Hylendid Bwyd	23
4.10 Cwynion am fwyd	24
4.11 Cyngor i Fusnesau	24
4.12 Samplu Bwyd ac Archwiliadau	25
4.13 Ymchwiliadau i Achosion o Salwch ac Afiechydon Heintus yn gysylltiedig â Bwyd	26
4.14 Digwyddiadau Diogelwch Bwyd	27
4.15 Cyswllt â Sefydliadau Eraill	27
4.16 Hyrwyddo Diogelwch Bwyd	28
4.17 Hyfforddiant Diogelwch Bwyd i Swyddogion	28
4.18 Camau Ffurfiol Diogelwch Bwyd	29
4.19 Bwyd mwy Diogel Gwell Busnes - Safer Food Better Business (SFBB)	29

4.20	Busnesau Newydd	29
<b>5.0</b>	<b>ADNODDAU</b>	<b>31</b>
5.1	Dyraniad Ariannol	31
5.2	Lefelau Staff Presennol	32
<b>6.0</b>	<b>SICRWYDD ANSAWDD</b>	<b>34</b>
6.1	Gweithdrefnau a Ddogfennir	34
6.2	Asesiadau ac Archwiliadau	34
<b>7.0</b>	<b>ADOLYGIAD</b>	<b>35</b>
7.1	Adolygu yn erbyn y Cynllun Gwasanaeth	35
7.2	Adolygu Perfformiad yn erbyn Cynllun Gwasanaeth 2014-15	35
7.3	Llwyddiant	36
7.4	Meysydd i'w Gwella 2016-17	37
7.5	Ffactorau sy'n debygol o gael effaith ar ddarpariaeth gwasanaeth yn ystod 2016-17	38
	Atodiad 1 – Perfformiad Hylendid Bwyd 2015-16	40
	Atodiad 2 - Perfformiad Safonau Bwyd 2015 -16	44
	Atodiad 3 – Perfformiad Cynhyrchwyr Cynradd (Hylendid) 2015-16	46

### Rheolaeth weinyddol yr Adroddiad

Enw	Cynllun Gwasanaeth Diogelwch, Safonau a Hylendid Bwyd
Fersiwn	1.0
Statws	Byw
Prif Swyddog	Alun Evans, Public Protection Manager
Llofnod	
Cynhyrchwyd gan	Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd
Wedi ei gymeradwyo gan	Dafydd Wyn Williams
Dynodiad	Pennaeth Rheoleiddio
Llofnod	
Dyddiad cymeradwyo	
Dyddiad yr adolygiad nesaf.	1/04/17

## DIFFINIADAU

BRDO	-	Swyddfa Darparu Gwell Rheolaeth – adnabyddir nawr fel Darpariaeth Rheolaeth
CEFAS	-	Canolfan ar gyfer yr Amgylchedd, Pysgodfeydd, a Gwyddoniaeth Dyframaeth
CIEH	-	Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd
DPP	-	Datblygiad Proffesiynol Parhaus
AGGCC	-	Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
DPPW	-	Cyfarwyddwyr Gwarchod y Cyhoedd Cymru
APP (FLARE)	-	System cronfa ddata Gwarchod y Cyhoedd
CSHB	-	Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd
ASB	-	Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
CLLA	-	Cyferwerth â Llawn Amser
ALI	-	Awdurdodau Lleol
GHC	-	Gwasanaeth Hylendid Cig
ICC	-	Iechyd Cyhoeddus Cymru
PCCGD	-	Grŵp Cyswllt Pysgod Cregyn Gogledd Cymru a Glannau Dyfrdwy
PDBGC	-	Panel Diogelwch Bwyd a Afiechydon Heintus Gogledd Cymru
PHLS	-	Gwasanaeth Labordy Iechyd Cyhoeddus Cymru - Adran Microbioleg
SFBB	-	Bwyd Mwy Diogel, Gwell Busnes
BBAC	-	Busnesau Bach a Chanolig
DU	-	Y Deyrnas Unedig
FFMBC	-	Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymreig
UTBC	-	Uned Twyll Bwyd Cymru
WHoEH	-	Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru
WHoTS	-	Penaethiaid Safonau Masnach Cymru
CLLC	-	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
DC	-	Dŵr Cymru

## 1.0 Cyflwyniad

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) fel rhan o gytundeb fframwaith diogelwch bwyd cenedlaethol yn gofyn i bob awdurdod lleol baratoi cynllun darparu gwasanaeth blynyddol. Mae'r cynllun yn adlewyrchu'r gwaith y mae'r ASB yn gofyn i awdurdodau bwyd ei wneud dan ofynion y Ddeddf Safonau Bwyd 1999 a'r cytundeb fframwaith ar orfodaeth sydd yn ei le ar gyfer awdurdodau lleol.

Mae'r cynllun gwasanaeth hwn yn manylu gwaith diogelwch bwyd, safonau bwyd a hylendid bwyd (cynhyrchwyr cynradd) sydd yn mynd i gael ei gyflawni yn ystod 2016-17 gan Wasanaeth Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Gwynedd.

Gobaith y cynllun yw sicrhau bod pob blaenoriaeth a safonau cenedlaethol yn cael eu cyflawni'n lleol, drwy ddefnydd dull cytbwys o orfodi diogelwch bwyd . Cyflawnir hyn nid yn unig drwy gyfeirio adnoddau at y broses ymyraethau a raglennwyd, ond hefyd drwy sicrhau bod darpariaeth ddigonol ar gael i ymdrin â chwynion am fwyd, hysbysiadau am wenwyn bwyd a rhoi cyngor i fusnesau. Mae'n ofynnol hefyd medru cwblhau gwaith sy'n seiliedig ar wybodaeth a dderbynnir gan gynnwys samplu, ymyraethau wedi'u targedu, ymyraethau ymatebol eraill a gwaith ymgyrchu.

## **2.0 Amcanion y Gwasanaeth**

### **2.1 Nod**

Mae'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn ymroddedig i sicrhau fod bwyd a diod gaiff ei werthu i'w fwyta a'i yfed gan bobl, sy'n cael ei gynhyrchu, ei storio, ei ddosbarthu, ei drin neu ei ddefnyddio yn y Sir, yn rhydd o unrhyw berygl i iechyd a diogelwch y defnyddiwr ac yn cydymffurfio gyda gofynion cyfansoddiadol a labelu.

Bydd y Gwasanaeth yn arddel dull gorfodaeth sy'n seiliedig ar asesu'r risg i iechyd cyhoeddus a methiant i gwrdd â gofynion statudol.

Mae gan y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd bolisi gorfodaeth, a bydd staff yn ymgymryd â gweithgareddau yn y Cynllun Gwasanaeth hwn yn unol â'r polisi.

Rhoddir sylw hefyd i'r arweiniad a geir yng Nghod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) 2014 ac i arweiniad gan gyrrff cydnabyddedig fel y BRDO (Darpariaeth Rheolaethol)

Nydd y Gwasanaeth hefyd yn cyfranu at ymdrechion y Cyngor i gwrdd a goblygiadau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

### **2.2 Amcanion**

Amcanion y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yng nghyswllt diogelwch bwyd yw fel a ganlyn:

- Gweithredu rhaglen flynyddol o ymyraethau a gorfodaeth hylendid bwyd a safonau bwyd yn unol â gofynion statudol, Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) 2014 a chanllawiau perthnasol. Yn ddibynnol ar argaeledd swyddogion cymwys, bydd ymyraethau o'r fath yn cael eu cynnal ar y cyd ag ymyraethau a gynhelir yng nghyswllt swyddogaethau statudol eraill.
- Cefnogi'r rhaglen archwiliadau blynyddol gyda rhaglen ymyraethau eraill fel gorfodaeth amgen a samplu bwyd, lle fo angen ac yn briodol i wneud hynny.
- Ymchwilio i gwynion, a gweithredu'n briodol yn unol â Chod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) 2014 a chanllawiau perthnasol.
- Darparu gwybodaeth a chyngor i fusnesau a defnyddwyr. Lle fo adnoddau yn caniatáu, cefnogi busnesau bwyd a defnyddwyr trwy gyngor, hyrwyddo ymarfer da a

mentrau addysgol wedi'u targedu.

- Cymeradwyo sefydliadau cynyrch sbesiffig sy'n destyn rheolaeth yn unol a'r cyngor sydd ar gael.
- Cynnal a gwella cymwysterau swyddogion sy'n gorfodi cyfraith diogelwch bwyd.

### 2.3 Cysylltiadau ag Amcanion Corfforaethol

Mae nod Cyngor Gwynedd yn cael ei egluro yn y Cynllun Strategol 2013 – 17, sef ceisio sicrhau 'Y Gorau i Bobl Gwynedd, Heddiw ac Yfory'. Y weledigaeth gyffredinol yw: "Cefnogi pobl Gwynedd i ffynnu mewn amseroedd anodd". Mae'r cynllun strategol hwn yn adnabod cyfres o weledigaethau sydd wedi eu nodi islaw themâu penodedig. Y themâu ydyw:

- Plant a Phobl Ifanc
- Gofal, Iechyd a Lles
- Yr Economi
- Yr Amgylchedd
- Cymunedau Cryf
- Diwylliant a Threfniadau Busnes y Cyngor

Mae'r tabl isod yn nodi rhai o'r cysylltiadau rhwng gwaith y Gwasanaeth a rhai o'r 21 amcanion gwella sydd wedi ei nodi dan y 6 themâu craidd yn y strategaeth.

Thema	Amcan Gwella	Perthnasedd i waith y Gwasanaeth
<b>Plant a Phobl Ifanc</b>	Gwella addasrwydd y system ysgolion.	Mae'r tîm bwyd yn ymgymryd ag ymyraethau gan gynnwys archwiliadau / darparu cyngor mewn ceginau ysgolion drwy'r Sir. Mae'r ymyraethau yn sicrhau fod cydymffurfiaeth a gofynion hylendid a safonau bwyd a lle fo'n bosib, hybu gwelliannau. Mae swyddogion hefyd yn cynghori'r Awdurdod Addysg ar faterion hylendid a safonau bwyd ran eu trefniadau pwrcasu. Mae'r gwaith yma yn cyfrannu at gwrdd ar amcan.

<p><b>Gofal, Iechyd a Lles</b></p>	<p>Diogelu plant ag oedolion</p> <p>Gwella amgylchiadau byw preswylwyr Gwynedd fel eu bod yn medru byw'n iach.</p>	<p>Drwy weithredu rhaglen ymyrraethau a delio gyda chwynion ac achosion o afiechydon heintus mae'r gwasanaeth yn ymdrechu i amddiffyn iechyd pobl sydd yn bwyta yng Ngwynedd a'r rhai sy'n bwyta bwyd a gynhyrchir yng Ngwynedd . Yn ogystal, mae'r gwasanaeth hefyd am sicrhau fod bwyd a brynir / gynhyrchir yng Ngwynedd yn cwrdd â gofynion cyfansoddiadol a labelu.</p> <p>Bydd swyddogion yn mynd ati i annog busnesau i wella cydymffurfiaeth gyda chyfraith gyfredol a safonau ymarfer gorau ac felly'n cyfrannu tuag at wella amgylchiadau ar gyfer preswylwyr ac ymwelwyr.</p> <p>Byddwn hefyd yn codi ymwybyddiaeth o alegrau bwyd ag anoddefiadau bwyd ac amlygu sut a pha gynnyrch / cyfansoddion sydd yn effeithio grwpiau sy'n agored i niwed yn ein cymdeithas.</p>
<p><b>Yr Economi</b></p>	<p>Cryfhau gwytnwch busnesau oddi fewn y Sir a chadw budd economaidd yn lleol.</p>	<p>Wrth ymgymryd â gwaith bwyd mae'r gwasanaeth yn sicrhau nad yw busnesau yng Ngwynedd yn peri risg o greu achosion gwenwyn bwyd. Gall achosion gwenwyn bwyd greu difrod ariannol sylweddol ran;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- unigolion sy'n dioddef yn angen triniaeth ysbyty a methu gweithio,</li> <li>- busnes/au sy'n gysylltiedig ar haint yn colli enw da a chwsmeriaid;</li> <li>- Cyhoedduswydd negyddol yn dwyn perswâd ar bobl i beidio ag ymweld ar ardal.</li> </ul> <p>Mae cyngor a chymorth yn cael ei gynig i fusnesau gyda'r nod eu bod</p>



		<p>yn cwrdd â gofynion eu cwsmeriaid, yn creu gwaith yn lleol ac yn cynnig gwerth am arian i rai sydd wedi buddsoddi ynddynt.</p> <p>Bydd monitro a chynghori ar safonau statudol yn cynorthwyo gyda sicrhau lefel cystadleuaeth hafal mewn economi cynaliadwy.</p> <p>Mae gan fusnesau bwynt cyswllt dibynnol.</p> <p>Mae nifer o fusnesau yng Ngwynedd yn fusnesau teuluol.</p> <p>Mae darpariaeth bwyd saff yn cynorthwyo'r sector manwerthu a gwasanaethau sydd yn cyfrannu at gynnal yr economi lleol.</p>
<b>Yr Amgylchedd</b>	Lleihau allyriadau carbon	Mae swyddogion sy'n ymgymryd â gwaith rheng flaen yn cyfuno archwiliadau fel fo sylw yn cael ei roi i fwy nag un maes gorfodaeth ymhob archwiliad. Mae hyn felly yn lleihau'r nifer o ymweliadau sy'n ddibynnol ar ddefnydd cerbydau.
<b>Cymunedau Cryf</b>	Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg.  Hyrwyddo cymunedau cynaliadwy gwledig.	Mae'r holl wasanaeth rheng flaen yn cael ei ddarparu / ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyrwyddo ymarfer da / cydymffurfiaeth ymysg busnesau yn cyfrannu at ddiogelu cymunedau gwledig cynaliadwy.
<b>Diwylliant a threfniadau busnes y Cyngor.</b>	Hyrwyddo diwylliant traws y Cyngor a rhoi 'pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud.'  Lleihau'r gofyn am wasanaethau drwy atal	Ethos y gwasanaeth ydyw rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bob dim rydym yn ei wneud. Mae ymdrech barhaol i geisio gwelliannau yn y gwasanaeth a gynigir i gwsmeriaid, gwella effeithlonrwydd a gyrru costau lawr.

	<p>problemau a chynnal ymyrraeth gynnar.</p>	<p>Mae'r gwasanaeth yn annog ymholiadau a chwynion gan fusnesau ar cyhoedd. Mae defnyddwyr y gwasanaeth yn cael eu holi'n rheolaidd i sefydlu os yw'r gwasanaeth yn cwrdd â'u gofynion.</p> <p>Datblygir staff a rhoddir hyfforddiant iddynt i sicrhau eu bod yn gymwys i gwblhau eu dyletswyddau.</p> <p>Drwy gynnal ymyraethau wedi eu rhaglennu mae'r gwasanaeth yn lleihau'r gofyn ar wasanaethau eraill y Cyngor a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr.</p>
--	--	---

Mae'r Cynllun hwn yn cyfrannu at wneud Gwynedd yn lle iach, diogel a chynaliadwy i fyw a gweithio.

## 2.4 Mesurau Monitro Perfformiad

Mae mesurau monitro perfformiad y gwasanaeth ar gyfer 2016-17 wedi ei rhestru isod. Defnyddir y mesurau i sefydlu cyfraniad y gwasanaeth at gwrdd ag amcanion y Cyngor sydd wedi eu manylu yn y Cynllun Strategol 2013-17.

Uned	Cyfeirnod	Disgrifiad
Gwarchod y Cyhoedd	GyC02	% o gwsmeriaid a ymatebodd i arolwg ddywedodd eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn ar lefel gwasanaeth.
	GyC03	% y ceisiadau am wasanaeth sy'n derbyn ymateb o fewn targed.
	GyC04	% y ceisiadau am wasanaeth a chafodd eu datrys o fewn 6 mis o'r dyddiad derbyn.
	GyC25	% y busnesau newydd wedi eu canfod ac sydd wedi cael ymweliad asesu risg neu gwnaeth ddychwelyd holiadur hunan asesu yn ystod y flwyddyn.
	GyC26	% y busnesau uchel eu risg sy'n agored i gael arolygiad sydd wedi eu derbyn.


	PAM9a	% o sefydliadau bwyd sydd yn y system sy'n cyrraedd sgôr 4/5 safonau hylendid bwyd.
	PPN/007	% y terseddau sylweddol gafodd eu cywiro drwy ymyrraeth gan Warchod y Cyhoedd.

## 3.0 Cefndir

### 3.1 Proffil Gwynedd

Lleolir Gwynedd yng Ngogledd Orllewin Cymru. Dyma'r ail sir fwyaf yng Nghymru, yn cynnwys 12.26% o gyfanswm yr arwynebedd tir, dros ardal sy'n 2,548 cilometr sgwâr. Mae Gwynedd yn ymestyn o Abergwyngregyn yn y gogledd i Aberdyfi yn y de, pellter ar y ffordd o 130 km, ac o Uwchmynydd yn y gorllewin i Llandderfel yn y dwyrain, pellter ar y ffordd o 103 km. Mae gan Wynedd 301 cilomedr o arfordir, sef yr arfordir hiraf o holl Awdurdodau Unedol Cymru. Prif drefi Gwynedd yw Caernarfon, Bangor, Porthmadog a Dolgellau.

Yr amcangyfrif canol blwyddyn ar gyfer poblogaeth Gwynedd yn 2014 oedd 122,273 ([www.statswales.wales.gov.uk](http://www.statswales.wales.gov.uk)). Mae crynhoed o'r boblogaeth yn preswyllo yng ngogledd y sir ym Mangor, Caernarfon a'r trefi a phentrefi cyfagos.



### 3.2 Strwythur y Sefydliad a Llinellau Adrodd

Unedau Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd sy'n gyfrifol am gwblhau'r gwaith a fanylir yn y cynllun yma ydy'r Uned Bwyd ac Uned Safonau Masnach. Mae'r Aelod Cabinet dros Gynllunio a Materion Rheolaethol yn gyfrifol am Wasanaeth Gwarchod y Cyhoedd. Y Pwyllgor Craffu Cymunedau sy'n gyfrifol am graffu ei benderfyniadau ac am graffu darpariaeth y gwasanaeth gan yr Adran Rheoleiddio.

Manylir trefn rheolaethol Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd isod:



### 3.3 Sgôp Gwaith yr Uned Diogelwch Bwyd ac Uned Safonau Masnach

Mae'r ddwy uned yn cyfrannu tuag at a chynnal:

- Sefydlu a chadw cofrestr gyfredol o bob eiddo bwyd o fewn y Sir.
- Cynllunio ymyrraethau mewn eiddo bwyd - Mae pob busnes risg uchel bwyd yn derbyn ymyrraethau yn rheolaidd. Mae amlder yr ymyrraeth â phob busnes bwyd yn cael ei raglennu yn unol â'r cynllun graddio ymyrraeth mewn sefydliadau bwyd, fel y rhagnodir yng Nghod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) 2014. Wrth lunio'r rhaglen rhoddir ystyriaeth i beryglon posib, lefel y gydymffurfiaeth a hyder yn systemau rheoli'r rheolwyr. Mae swyddogion yn cynghori ar ymarfer da ac yn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol. Caiff ymyrraethau hylendid bwyd eu raglennu fel y gellir eu cynnal ar y cyd â safonau bwyd neu/ ac iechyd a diogelwch, cyn belled â bod hynny'n bosib.
- Ail ymweliadau – Pan fo gofyn i weithredwr busnes bwyd gwblhau gwaith i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelwch / safonau bwyd, gellir cynnal ail ymweliad â'r eiddo ar ôl y dyddiad a roddwyd ar gyfer cydymffurfiaeth.
- Ymchwilio i Gwynion - Mae'r adain yn ymateb i bob cwyn a dderbynnir am fusnesau bwyd a bwyd a brynwyd yn ardal Cyngor Gwynedd, lle fo'r achwynydd yn fodlon

darparu eu henw/ manylion cyswllt. Byddwn yn ymchwilio i bob cwyn i bennu pa fesurau gorfodaeth sy'n briodol ac i sicrhau y cymerir rhagofalon i atal digwyddiad arall yn y dyfodol. Mae hyn yn aml yn golygu cysylltu â chwmnïau gweithgynhyrchu ac awdurdodau lleol eraill.

- Adnabod busnesau bwyd newydd yn fuan wedi iddynt sefydlu, ac ymweld â'r eiddo hynny i gwblhau ymyrraethau a darparu cyngor ac arweiniad.
- Ymchwilio i Salwch o Fwyd – Derbynnir hysbysiadau am achosion o wenwyn bwyd gan feddygon teulu, y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Gymru (ICC) a'u gwasanaethau labordy. Byddwn yn ymchwilio i bob hysbysiad ac yn cymryd camau priodol i atal heintiau rhag ymledu.
- Addysgu a Hyrwyddo Hylendid a Safonau Bwyd - Fel rhan o ymrwymiad y gwasanaeth i hyrwyddo iechyd cyhoeddus, mae'r gwasanaeth yn cynnal amryw o fentrau diogelwch bwyd. Yn flaenorol mae'r rhain wedi cynnwys seminarau i fusnesau lleol, cymryd rhan mewn wythnos ddiogelwch bwyd, darparu taflenni newyddion a darparu cyngor a chymorth i fusnesau yn ystod ymyrraeth neu yn dilyn cais.
- Digwyddiadau a Rhybuddion am Fwyd – Pan gyhoeddir rhybuddion bwyd gan yr FSA yng nghyswllt bwydydd penodol a lle adnabyddir yr angen, bydd yr adain yn cymryd pob mesur priodol i sicrhau nad yw'r bwydydd yn cael eu rhoi ar werth yn y Sir.
- Cymeradwyo Eiddo Bwyd - Mae angen caniatâd ymlaen llaw gan yr awdurdod lleol ar gyfer rhai prosesau bwyd. Yng Ngwynedd mae'r rhain yn cynnwys prosesau yn ymwneud a chynnyrch llaeth, cynnyrch cig, cynnyrch pysgod, wyau ac eiddo puro pysgod cragen. Caiff yr eiddo eu harchwilio cyn rhoi cymeradwyaeth iddynt, a chânt eu monitro'n rheolaidd wedi hynny i sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio â gofynion cyfreithiol.
- Samplu Bwyd – Byddwn yn samplu bwyd er mwyn monitro safonau diogelwch a safonau bwyd yn ystod ymyrraethau ac fel rhan o raglenni samplu bwyd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- Samplu Pysgod Cragen – Gwneir gwaith samplu i fonitro statws hylendid ardaloedd dynodedig sy'n cynhyrchu pysgod cragen.
- Bwyd sy'n cael ei fewnforio – Ymchwilio i honiadau neu amgylchiadau sy'n awgrymu bod bwyd sydd wedi'i fewnforio wedi'i halogi, lygru neu wedi cael ei fewnforio'n anghyfreithlon, a chymryd y camau angenrheidiol.

- Cyflenwadau Dŵr ffynnon/ mwynol - Mae tri sefydliad sy'n potelu dŵr yn cael eu gorchwyllo gan y gwasanaeth. Mae ymyrraethau yn cael eu cynnal yn rheoliad i sicrhau fod y dŵr yn cwrdd â safon yfed a bod y wybodaeth a ddarparir i gwsmeriaid yn cydymffurfio gyda rheolau cyfredol.
- Gwasanaethau Eraill – Yn ddibynnol ar gymhwysedd y Swyddogion, disgwylir iddynt ymdrin â materion iechyd a diogelwch galwedigaethol sy'n codi yn ystod ymyrraethau diogelwch / safonau bwyd. Pan fo angen, byddant hefyd yn ymchwilio i ddiwyddiadau sy'n gysylltiedig â dŵr ac afiechydon heintus ar wahân i wenwyn bwyd; yn rhoi sylwadau ar geisiadau am drwydded eiddo dan Ddeddf Trwyddedu 2003 ac ar geisiadau cynllunio a rheolaeth adeiladu sy'n ymwneud ag eiddo bwyd.

### 3.4 Gwasanaethau/Partneriaid Allanol Arbenigol

Gwasanaethau Dadansoddi Bwyd	Eurofins Laboratories Ltd
Archwiliwr Bwyd	Adran Microbioleg Iechyd Cyhoeddus Cymru, Ysbyty Gwynedd
Swyddog Priodol	Iechyd Cyhoeddus Cymru

### 3.5 Lleoliad Gwasanaethau

Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu o dair swyddfa ardal sef Swyddfa Ardal Arfon, Caernarfon; Swyddfa Ardal Dwyfor, Pwllheli a Swyddfa Ardal Meirionnydd, Dolgellau. Oriau agor y swyddfeydd yw dydd Llun i ddydd Gwener 09:00 – 17:00.

Gwneir gwaith ymyrraeth y tu allan i oriau pan nad yw'r eiddo'n gweithredu yn ystod y dydd. Y polisi yw bod ymyrraethau bwyd, oni bai bod amgylchiadau eithriadol, yn cael eu cynnal heb rybudd er mwyn gweld y busnes yn gweithredu fel y mae mewn gwirionedd. Mae hefyd wasanaeth tu allan i oriau ar gyfer argyfyngau.

### 3.6 Gofynion ar yr Adain Diogelwch Bwyd

Mae Gwynedd yn cynnwys cymysgedd o eiddo gweithgynhyrchu, manwerthu ac arlwygo. Y sectorau arlwygo a manwerthu yw'r rhai mwyaf. Busnesau bychain a chanolig (BBAC) sydd yn y sectorau hyn yn bennaf. Mae hefyd nifer fawr o gynhyrchwyr cynradd (anifeiliaid) yn y Sir.

Ar y 1af o Ebrill 2016, roedd Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am orfodi diogelwch bwyd mewn 2147 o eiddo bwyd yng Ngwynedd. Yn yr un modd, roedd y Cyngor yn gyfrifol am 1859 o fusnesau sy'n cynhyrchu bwyd ar lefel cynradd.

Mae'r rhaglen asesu risg ar gyfer diogelwch a safonau bwyd wedi'i hamlinellu yn y cynllun graddio ymyrraeth yng Nghod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) 2014, ac mae'r meini prawf yn nodi y dylai pob eiddo bwyd fod yn cael eu goruchwyllo i ryw raddau, er bod Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) 2014 yn caniatáu defnyddio dulliau gorfodaeth amgen gydag eiddo sy'n peri'r risg lleiaf.

### Tabl yn arddangos nifer y mathau o fusnesau bwyd yng Ngwynedd

	<b>Nifer yr eiddo (Ar 01/04/16)</b>
Cynhyrchwyr Cynradd (Sefydliadau Bwyd)	18
Gwneuthurwyr a Phacwyr	137
Mewnforwyr ac Allforwyr	0
Dosbarthwyr a Chludwyr	16
Manwerthwyr	462
Bwytai ac Arlwywyr	1514
<b>Cyfanswm</b>	<b>2147</b>
Eiddo sydd wedi'u cymeradwyo o'r rhain	27

Mae gan Wynedd nifer o wlaŷu pysgod cregyn wedi eu dosbarthu gan Lywodraeth Cymru ac yn destun gwaith rheolaethol gan y gwasanaeth. Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am hel a casglu samplau o bysgod cregyn a dwr mor ger y gwlaŷu i i sicrhau eu bod yn cwrdd a gofynion micro baidd a cemegol llym. Mae'r swyddogion sy'n ymgymryd ar gwaith wedi derbyn hyfforddiant arbenigol.

Yn yr un modd, mae swyddogion sy'n ymgymryd â gwaith rheolaeth mewn safleoedd potelu dŵr angen hyfforddiant arbennigol.

Mae oddeutu 340 o eiddo bwyd yn y Sir yn dymhorol. Mae'r mwyafrif ar agor ond yn ystod misoedd yr Haf. Bydd y busnesau hyn yn creu gofyn ychwanegol ar y gwasanaeth oherwydd y cynnydd mewn archwiliadau rhaglunedig dros y cyfnod hwn. Misoedd yr Haf yw'r rhai prysuraf gan fo ceisiadau am wasanaeth fel arfer yn cynyddu yn sylweddol oherwydd y twf yn y boblogaeth leol drwy dwristiaeth.

Nid Cymraeg neu Saesneg ydyw iaith gyntaf oddeutu 40-50 o weithredwyr busnesau bwyd yng Ngwynedd. Gall hyn greu sialens i swyddogion wrth iddynt gwblhau ymyrraethau yn y busnesau yn nhermau cyflwyno gwybodaeth a sicrhau cydymffurfiaeth gyda rheolau cyfredol.



### **3.7 Polisi Gorfodaeth**

Cymeradwywyd polisi gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd gan Bwyllgor (28 Hydref 2011). Gellir gweld y polisi gorfodaeth ar wefan y Cyngor ( [www.gwynedd.gov.uk](http://www.gwynedd.gov.uk) ). Bydd penderfyniadau gorfodaeth ynghylch diogelwch bwyd yn cael eu cofnodi a'u monitro i ddangos ein bod yn cadw at y polisi. Yn ychwanegol at hyn, mae gweithdrefnau cynhwysfawr ar gael i sicrhau cysondeb y gwasanaeth.

## 4.0 Darparu'r Gwasanaeth

### 4.1 Ymyrraethau mewn Eiddo Bwyd

Mae ymyrraethau y Gwasanaeth mewn eiddo sydd yn ymwneud a bwyd yn cael eu blaenoriaethu yn unol â'r categori risg sydd wedi ei ddynodi iddynt yn flaenorol. Dilynrir y drefn a fanylir yng Nghod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) 2014 .

Caiff ymyrraethau eu diffinio yn y cod fel gweithgareddau sydd wedi'i dylunio i fonitro, cefnogi a chynyddu cydymffurfiaeth â'r gyfraith. Maent yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, 'rheolaethau swyddogol' fel y diffinnir yn Erthygl 2 (1) Rheoliad y GE 882/2004.

Mae ymyrraethau rheoli bwyd swyddogol y gellir eu defnyddio yn cynnwys archwiliadau, archwiliadau rhannol, ymweliadau goruchwyllo, ymweliadau gwirio, ymweliadau monitro ac ymweliadau samplu, a bydd y gwaith dadansoddi/archwilio yn digwydd mewn labordy swyddogol. Pan fod amgylchiadau'n caniatáu, ac yn arbennig ar gyfer eiddo risg isel, gellir defnyddio ymyrraethau eraill nad ydynt yn rheolaethau swyddogol. Mae'r rhain yn cynnwys addysg, cyngor, hyfforddiant a chasglu gwybodaeth.

Wrth benderfynu pa fath o ymyrraeth a ddylid ei defnyddio, rhaid rhoi ystyriaeth i ofynion Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) 2014. Mae'r cod yn rhoi manylion ar ba mor aml y dylid cynnal ymyrraethau ar gyfer categorïau penodol o eiddo, a'r math o ymyrraethau allai fod yn briodol, fel a ganlyn:

Categori Risg	RHEOLAETHAU SWYDDOGOL							YMYRAETHAU ERAILL		Amllder Gofynnol yr Ymyrraeth
	Archwiliad	Archwiliad Rhannol	Archwiliadau-'audit'	Monitro	Goruchwyllo	Gwirio	Samplu	Addysg, Cyngor a Hyfforddiant	Gwybodaeth, Casglu Gwybodaeth a Samplu	
A <sup>1</sup>	X	X	X							6 mis
B <sup>1</sup>	X	X	X							12 mis
C <sup>1</sup>	X	X	X							18 mis
C: 'Cydymffurfio'n Fras' <sup>2</sup>	X	X	X	X	X	X	X			18 mis
D	X	X	X	X	X	X	X	X	X	24 mis
E	Strategaeth Orfodaeth Amgen Bob Tair Blynedd									

1-Ar gyfer safonau Bwyd, yr isafswm sy'n dderbyniol ran cyfnod rhwng ymyrraethau mewn eiddo categori A ydy 12 mis, categori B 24 mis ac ar gyfer eiddo categori C, rhaid cynnal ymyrraeth neu ymyrraeth sy'n rhan o strategaeth gorfodaeth amgen bob 5 mlynedd.  
2-Eiddo sy'n gallu dangos, ac sydd wedi'u hasesu i ddangos bod ganddynt amodau, systemau a rheolaeth dda sy'n sgorio  $\leq$  10 yn y system raddio (h.y. eiddo da).

## 4.2 Ymyrraethau Hylendid Mewn Cynhyrchwyr Cynradd

Dylid fo rhaglen ymyrraethau mewn cynhyrchwyr cynradd yn seiliedig ar risg fel y manylir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) 2014.

Lle sefydlir fod busnes yn gyffredinol yn cwrdd â deddfwriaeth bwyd a lle fo'r categori risg yn adlewyrchu hynny, gellir defnyddio dull rheolaeth swyddogol amgen fel ymyrraeth yn hytrach nag archwiliad.

Bydd unrhyw ymyrraeth i sefydlu fo'r gweithredwr busnes bwyd ac unrhyw weithwyr gyda dealltwriaeth o'r peryglon sy'n gysylltiedig ar busnes ac os oes mesurau yn eu lle i reoli'r peryglon a sicrhau fod bwyd sy'n cael ei gyfeirio at y gadwyn fwyd yn saff i'w fwyta.

## 4.3 Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cenedlaethol

O'r 1af o Hydref 2010 fe fu Cyngor Gwynedd yn rhedeg cynllun cenedlaethol gwirfoddol sgorio hylendid bwyd. Cafodd y cynllun gwirfoddol ei ddisodli gan gynllun statudol wedi i'r Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 ddod i rym ar 27 Tachwedd 2013. Mae'r Ddeddf yn gofyn i awdurdodau lleol weithredu cynllun sgorio hylendid bwyd gan sgorio busnesau bwyd o fewn eu hardal. Yn ogystal, mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar fusnesau bwyd i arddangos eu sgôr hylendid bwyd yn lleoliad eu busnesBwriad y Ddeddf yw sicrhau bod cwsmeriaid yn derbyn gwybodaeth am safonau hylendid bwyd busnesau bwyd yng Nghymru. Bydd hyn yn galluogi cwsmeriaid i wneud penderfyniadau deallus o ran ble i brynu bwyd.

Mae sgorau busnesau bwyd i'w gweld ar wefan yr ASB <http://ratings.food.gov.uk/>

Mae canllawiau Sgorio Hylendid Bwyd ar gyfer Llywodraethau Lleol (ASB 2014) yn datgan na ellir dyfarnu sgôr hylendid bwyd ond wedi archwilio eiddo.

#### 4.4 Rhaglen Ymyrraeth hylendid Bwyd Cyngor Gwynedd 2016-17

Yn ystod 2015-16 bydd eiddo risg uchel categori A, B ac C yn derbyn ymyrraeth yn unol â'r cynllun graddio ymyrraeth mewn sefydliadau bwyd.

Ymdrechir i gynnal rheolaethau swyddogol yn holl eiddo categori risg D sydd wedi ei rhaglennu ar gyfer derbyn ymyrraeth.

Yn ogystal, bydd adnodd yn cael ei gyfeirio at gynnal ymyrraethau mewn eiddo categori E sydd wedi ei rhaglennu am ymyrraeth neu heb gael ymyrraeth fel y dylid. Bydd yr ymdrech yn canolbwyntio ar eiddo sydd heb dderbyn ymyrraeth am gyfnod sylweddol o amser a'r rhai sy'n disgyn dan y drefn sgorio hylendid bwyd. Bydd yr ymyrraethau yn amrywio ond yn debygol o fod yn archwiliadau( ar gyfer sgorio) neu holiadur dros y ffon , yn unol â'n strategaeth gorfodaeth amgen.

Cynhelir ymyrraethau mewn eiddo risg isel ond pan fo adnoddau digonol ar gael.

Polisi'r uned bwyd yw cynnal ymyrraethau hylendid bwyd mewn eiddo risg uchel A,B, ac C yn unol â'r amllderau archwilio gofynnol, fel yr amlinellir yn y cynllun graddio ymyrraeth mewn sefydliadau bwyd, sydd wedi'i grybwyll eisoes. Caiff yr ymyrraethau hyn oll eu blaenoriaethu yn unol â'r risgiau diogelwch bwyd sy'n gysylltiedig â'r eiddo. Cawn eu blaenoriaethu drwy ystyried natur y gwaith ymdrin â'r bwyd sy'n gysylltiedig ar busnes, y safonau a gynhelir, ac ansawdd y rheolaeth.

Mae'r tabl ar y ddalen nesaf yn dangos yr eiddo fydd yn derbyn ymyrraeth yn ystod 2015-16. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys eiddo sydd wedi eu gohirio neu sy'n weddill o'r flwyddyn flaenorol oherwydd ffactorau megis eiddo tymhorol wedi cau.

Proffil yr Eiddo	Nifer yr Eiddo (ar 01/04/16)	Amcangyfrif o nifer yr ymyrraethau fydd eu hangen yn ystod y flwyddyn
Categori A	7	14
Categori B	69	69
Categori C	870	592
Categori D	442	183
Categori E	725	322
Heb eu graddio	27	27
Tu allan i'r rhaglen	7	-
<b>CYFANSWM</b>	<b>2147</b>	<b>1207</b>

Y nod yw archwilio 100% o'r eiddo risg uchel (ABC).

#### 4.5 Rhaglen Ymyrraeth Safonau Bwyd Cyngor Gwynedd 2015-16

Ar gyfer 2016-17 bydd eiddo risg uchel categori A yn derbyn ymyrraeth yn unol â gofynion y cynllun graddio ymyrraeth safonau bwyd.

Bydd yr Awdurdod hefyd yn ymdrechu i gynnal ymyraethau swyddogol ym mwyafrif yr eiddo categori risg B sydd wedi ei rhaglennu ar gyfer ymyrraeth.

Er mwyn gwella effeithlonrwydd mae swyddogion sydd yn cynnal ymyraethau hylendid bwyd bellach yn cynnal ymyraethau (archwiliad) safonau bwyd os ydy'r eiddo angen neu am fod angen archwiliad yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Oherwydd diffyg adnodd, mae'n anorod na fyddwn yn medru cwblhau rhaglen cynnal archwiliadau mewn busnesau manwerthu categori risg C. Lle fo adnoddau yn caniatáu ymdrechir i gynnal ymyraethau yn deillio o strategaeth gorfodaeth amgen o leiaf unwaith bob 5 mlynedd

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos pa archwiliadau safonau bwyd sydd angen eu cynnal yn 2016/17.

<b>Proffil yr Eiddo: Safonau Bwyd (Categoriâu Risg A-C)</b>	<b>Amcangyfrif o Nifer yr Eiddo (ar 01/04/16)</b>	<b>Amcangyfrif o nifer yr archwiliadau cynradd fydd eu hangen yn ystod y flwyddyn (01/04/16 - 31/03/17)</b>
Categori A	4	4
Categori B	619	371
Categori C	1438	461
Tu allan i'r rhaglen	6	0
Heb eu graddio	80	80
<b>CYFANSWM</b>	<b>2147</b>	<b>916</b>

#### 4.6 Ymyrraeth Hylendid Bwyd (Cynhyrchiant cynradd)

Dylid fo ymyrraeth y Gwasanaeth mewn busnes sydd yn ymwneud a chynhyrchu bwyd ar lefel cynradd yn cael ei flaenoriaethu yn unol â'r categori risg sydd wedi ei ddynodi iddynt yn flaenorol yn dilyn ymyrraeth.

Gall ffactorau megis aelodaeth o gynllun cydnabyddedig a gwybodaeth leol gael dylanwad ar natur ac amllder ymyraethau.

Bydd archwiliadau cynhyrchwyr cynradd yn gyffredinol yn cael eu gwneud ar y cyd gydag archwiliadau bwyd anifeiliaid sydd yn cael eu rhaglennu yn unol ar cynllun gweithredu blaenoriaethol gyflwynir yn flynyddol i Lywodraeth Cymru. Mae'r cynlyn bwyd anifeiliaid yn cael ei ddarparu traws Gogledd Cymru.

Ni fydd modd i swyddogion a fu yn cynnal ymyrraethau hylendid bwyd mewn cynhyrchwyr cynradd barhau i wneud hynny gan nad ydynt yn meddu ar y cymwysterau sy'n ofynnol ((fel y manylir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) 2014)). O'r herwydd bydd ymdrech gorfodaeth Gwynedd yn y maes hwn eleni yn sylweddol is nag yn flaenorol.

Bydd ymyrraeth hylendid bwyd yn cael eu cynnal ar y cyd gydag ymyrraethau bwyd anifeiliaid. Mae archwiliadau bwyd anifeiliaid yn tueddu i gael eu cynnal yn amlach na rhai hylendid bwyd ac felly yn ymarferol bydd archwiliadau hylendid bwyd yn dilyn y rhaglen yn y cynllyn gweithredu blaenoriaethol bwyd anifeiliaid, boed nhw wedi eu rhaglennu am ymyrraeth ai peidio.

<b>Proffil Eiddo Hylendid Bwyd ar Lefel Cynhyrchu Cynradd</b>	<b>Nifer yr eiddo (ar 1/4/16)</b>	<b>Amcangyfrif nifer yr ymyrraethau cynradd sydd eu hangen yn ystod y flwyddyn (1/4/16-31/3/17)</b>
Aelodau o gynlluniau sicrwydd cydnabyddedig	610 (*)	40
Ddim yn aelodau o gynlluniau sicrwydd cydnabyddedig	1249	70
CYFANSWM	1859	110

(\*)Deiliadaeth Cig Prydain, Cynllun Deiliadaeth Cnydau i'w Cynaeafu, Deiliadaeth Dda Byw Ffermydd Cymreig

#### 4.7 Torri Deddfwriaeth Ddifrifol.

Yn ystod ymyrraethau a hefyd o ganlyniad i wybodaeth a dderbynnir trwy gŵyn neu unrhyw gais am wasanaeth, gellir canfod tor deddfwriaeth ddifrifol. Mae torri deddfwriaeth ddifrifol yn golygu torri'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Gwarchod y Cyhoedd, sydd ym marn y swyddog sy'n ei ddarganfod ac sy'n gweithio yn unol â thelerau'r polisi gorfodaeth, yn ddigon difrifol fel bod yn rhaid ymgymryd ag ymyrraeth briodol i sicrhau unioni'r toriad.

Er dibenion Gwarchod y Cyhoedd, mae hwn yn ddangosydd perfformiad cydnabyddedig ac fe'i defnyddir i fesur pa mor llwyddiannus fu'r Gwasanaeth yn unioni problemau mawr (Tor Deddfwriaeth Ddifrifol) oedd angen eu datrys. Mae'r dangosydd yn gweithredu fel gyrrwr sy'n sicrhau bod deiliant cadarnhaol i'r holl broblemau difrifol sydd wedi'u canfod.

Ystyrir bod toriad wedi'i unioni pan nad yw'r ddeddfwriaeth yn cael ei thorri mwyach a phan fo'r troseddwr honedig wedi cymryd y fath gamau, ym marn y swyddog, fel na fydd yn debygol y bydd parhad o'r tor cyfraith..

#### **4.8 Ail Ymweliadau Gorfodaeth**

Mae disgwyliad y bydd unrhyw eiddo sydd yn derbyn sgôr hylendid bwyd llai na 3 yn derbyn ail ymweliad gorfodaeth oherwydd ystyrir bod y sgôr wedi ei ddyfarnu yn sgil tor cyfraith ddifrifol.

Sefydlir dyddiad yr ail ymweliad yn dilyn y camau a gymerwyd wedi'r ymyrraeth wreiddiol a natur y gwaith sy'n ofynnol i'r busnes ei gwblhau i sicrhau cydymffurfiaeth a'r ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, disgwyliar fo ail-ymweliad ag eiddo gyda sgôr hylendid o 0 o fewn 28 diwrnod. Ble bo pryder mawr ynglŷn â glanweithdra'r eiddo, bydd yn briodol i'r cyfnod fod yn fyrrach. Dylid ail ymweld ag eiddo gyda sgôr hylendid o 1 neu 2 o fewn cyfnod o dri mis, yn ddibynnol ar y camweithredu a ganfuwyd yn ystod yr ymyrraeth gyntaf. Dylai ail ymweliad o'r fath gael ei gynnal gan y swyddog a gynhaliodd yr ymyrraeth wreiddiol.

Yn yr un modd, mae disgwyliad lle fo tor cyfraith safonau bwyd difrifol yn cael ei adnabod y bydd ail ymweliad ar eiddo. Bydd y cyfnod rhwng yr ymweliad cyntaf ar ail ymweliad yn ddibynnol ar y risgiau sy'n gysylltiedig ar tor cyfraith ond dylid ei gynnal oddi fewn 3 mis.

#### **4.9 Ail Ymweliad Yn Dilyn Cais Am Ail Sgorio'r Sgôr Hylendid Bwyd**

Ymgwymerir ag ymweliad ail sgorio hylendid bwyd pan fo Gweithredwr y Busnes Bwyd wedi cymryd camau i unioni'r diffyg cydymffurfiaeth a nodwyd yn ystod yr archwiliad gwreiddiol a phan mae'r gweithredwr yn gwneud cais i'r awdurdod i ail asesu ei sgôr hylendid bwyd.

Dylid amseru ymweliad ail-sgorio'r eiddo o fewn gofynion y cynllun. Ble bo'n ymarferol, dylai ymweliad o'r fath gael ei gynnal gan y swyddog a gynhaliodd yr ymyrraeth wreiddiol.

#### **4.10 Cwynion am fwyd**

Bydd pob cwyn am fwyd a brynir o fewn y sir ac nad yw'n gŵyn ddiennw yn cael eu hymchwilio. Polisi'r gwasanaeth yw rhoi ymateb cyntaf o fewn pum diwrnod gwaith i bob cwyn am fwyd a chŵyn am eiddo bwyd.

Yn ystod 2015-16 derbyniwyd 50 cwyn oedd yn ymwneud a halogiad microbau, cemegau a deunydd estron mewn bwyd, 23 yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Cafwyd 16 cwyn yn ymwneud a safon hylendid busnesau bwyd a 6 yn ymwneud a honiadau o ymarferion paratoi bwyd annerbyniol.

Yn yr un modd fe fydd cwynion (sydd ddim yn ddiennw) dderbynnir am faterion safonau bwyd a hylendid bwyd mewn cynhyrchwyr cynradd yn derbyn ymateb oddi fewn 5 diwrnod gwaith. Yn ystod 2015-16 derbyniwyd 27 cwyn yn ymwneud a safonau bwyd, pedwar yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Ni dderbyniwyd cwyn yn ymwneud a hylendid mewn cynhyrchwyr cynradd.

#### **4.11 Awdurdodau Cynradd /Awdurdodau Cartref a Cyngor i Fusnesau**

Sefydlwyd Cynllun Awdurdod Cynradd fel cynllun statudol gan y Ddeddf Gorfodaeth Rheolaeth a Chosb 2008. Drwy ddilyn y cynllun gall busnesau ddewis sefydlu partneriaeth gyda llywodraeth leol fydd yn dynodi'r modd y bydd y busnes yn derbyn rheolaeth gan unrhyw awdurdod lleol. Y BRDO (Darpariaeth Rheolaeth) sy'n cynnal y cynllun.

Gall Awdurdod Cynradd gynnig pwynt cyswllt dechreuol i lywodraethau lleol ar gyfer busnes penodol. Gall yr Awdurdod Cynradd hefyd arweinaid ar faterion rheolaethol sy'n ymwneud ar busnes .

Nid oes gan Gyngor Gwynedd gytundeb Awdurdod Cynradd . Mae swyddogion wedi eu hymrwymo i ddilyn gofynion cytundebau Awdurdodau Cynradd sydd yn bodoli ar gyfer busnesau gydag eiddo yn yr ardal.

Mae'r egwyddor neu gynllun Awdurdod Cartref yn cynnig trefn o gymorth i fusnesau drwy sefydlu pwynt cyswllt oddi fewn llywodraeth leol ar gyfer busnes sydd a prif swyddfa neu fwyafrif o'u gweithgareddau wedi eu lleoli oddi fewn yr ardal.

Nid oes gan Gyngor Gwynedd drefn ffurfiol Awdurdod Cartref wedi ei gytuno gydag unrhyw fusnes. Er hyn mae'r uned bwyd yn dilyn egwyddorion y cynllun lle derbynnir cyswllt gan gynghorau lleol eraill yn ymwneud a busnesau wedi eu lleoli yng Ngwynedd.

Mae'r uned yn cynnig cyngor i unrhyw fusnes sydd ag eiddo masnachu yng Ngwynedd oni bai bod y masnachwr â threfniant Awdurdod Cynradd gydag awdurdod lleol arall. Cyflawnir hyn drwy ddarparu cyngor yn uniongyrchol i fusnesau a thrwy ddarparu cyrsiau hyfforddiant a ellir eu cynnal yn lleol.



#### 4.12 Samplu Bwyd ac Archwiliadau

Mae'r uned bwyd yn samplu bwyd a diod a gyflenwir, a gynhyrchir ac a werthir o fewn y Sir, yn unol â rhaglen samplu, er mwyn asesu diogelwch ac ansawdd y bwyd, a ble bo angen mewn ymateb i gwynion am fwyd/ archwiliadau bwyd. Bydd y gwasanaeth hefyd yn cymryd rhan mewn rhaglenni samplu yng Ngogledd Cymru, y DU ac Ewrop ble bo'n berthnasol.

Mae'r rhaglen samplu safonau bwyd yn cael ei gydgordio drwy'r cynllun gweithio ar y cyd Gogledd Cymru. Mae'r rhaglen wedi ei ffurfio gan WHoTS.

Mae canlyniadau analeiddio'r samplau yn cael eu cyfeirio at ASB drwy eu cofnodi ar y system UKFSS Net.

Yn ystod 2015-16 cymerwyd 487 o samplau hylendid bwyd (heb gynnwys ail sampl). Cafodd y samplau hyn eu cymryd fel rhan o raglen safonol a dau brosiect penodol. Roedd un prosiect yn ymwneud a sefydlu presenoldeb a lefelau campylobacter ar gydynau saws sydd yn cael eu cynnwys mewn pecynnau gyda chig amrwd dofednod. Roedd y prosiect arall yn edrych ar sefydlu safon ficrobiolegol pastai a gedwir yn gynnes cyn eu gwerthu.

O'r samplau a gymerwyd yn y rhaglen safonol dim ond 10 oedd ddim yn cwrdd â safonau microbiolegol cyfredol. Eleni bydd y rhaglen samplu yn cael ei ddefnyddio i dargedu bwyd / problemau mwy sbesifig. Yn ogystal, bydd dau brosiect yn cael ei redeg sydd yn targedu bwydydd sydd wedi eu canfod gyda lefelau o uwch na'r disgwyl o facteria yn flaenorol sef hufen ia a chynnwys brechdanau.

Cafodd 16 sampl safonau bwyd wedi ei raglennu eu cymryd yn ystod 15-16. Canfuwyd problemau yn ymwneud a rhywogaeth cig ac amnewidiad mewn pedwar sampl. Eleni (16-17) mae 24 sampl safonau bwyd wedi ei raglennu. Byddwn hefyd yn edrych i gymryd samplau o sefydliadau wedi eu cymeradwyo a chynhyrchwyr mawr dros y flwyddyn.

Yn ogystal, bydd yr uned bwyd yn ymgymryd â samplu arferol mewn ardaloedd lle bydd cregyn bysgod yn cael eu cynaeafu er mwyn monitro statws hylendid yr ardaloedd hynny. Defnyddir y data a geir o'r samplu i gynnal statws dosbarthiad yr ardaloedd cynaeafu cregyn bysgod.

Ar ddau safle cymerir samplau (cregyn bysgod yn bennaf) yn chwarterol a bob mis mewn 6 safle arall. Bydd dau o'r chwe safle hynny yn cael ei samplu ddwywaith y mis rhwng Ebrill a Medi. Yn dilyn cais gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd bydd sampl pellach bob mis yn cael ei gymryd o'r Fenai yn ystod 2016-17.

Dadansoddir mwyafrif y samplau bwyd gan yr Adran Ficrobioleg, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Ysbyty Gwynedd, Bangor. Ar adegau defnyddir y Dadansoddwr Cyhoeddus

(Eurofins Scientific Laboratories) yn Wolverhampton ac weithiau defnyddir labordai'r Canolfan ar gyfer yr Amgylchedd, Pysgodfeydd, a Gwyddoniaeth Dyframaeth (CEFAS).

#### 4.13 Ymchwiliadau i Achosion o Salwch ac Afiechydon Heintus yn gysylltiedig â Bwyd

Mae'r uned bwyd yn ymchwilio i bob achos o salwch yn deillio o hysbysiadau afiechydon yn gysylltiedig â bwyd yn unol â gweithdrefnau cydnabyddedig a chynghor gan ein Swyddog Priodol.

Mae trefniadau ffurfiol wedi'u sefydlu rhwng yr ICC a'r uned bwyd er mwyn adnabod achosion o wenwyn bwyd ac ymchwilio iddynt. Cyfeirir yr holl achosion o wenwyn bwyd sydd wedi'u hadnabod yn y labordy yn uniongyrchol i'r uned bwyd er mwyn eu harchwilio.

Ymchwilir i bob achos o wenwyn bwyd neu achosion honedig o wenwyn bwyd gyda golwg ar ddarganfod y ffynhonnell a rhwystro'r afiechyd rhag lledaenu ac ail godi eto.

Yn ystod 2015-16 derbyniwyd 18 cais am wasanaeth yn ymwneud a salwch bwyd oedd yn hysbysebion heb eu cadarnhau gan aelodau o'r cyhoedd neu asiantaethau eraill (15 yn llai na 14-15), 12 cais am wasanaeth yn ymwneud a heintiau heb fod yn gysylltiedig â bwyd (12 yn llai na 14-15) ac 2 yn ymwneud a filhaint (1 dderbyniwyd yn 14-15)

Mae'r tabl isod yn arddangos y nifer o hysbysiadau *cadarnhaol* unigol dderbyniwyd rhan afiechydon heintus yn gysylltiedig â bwyd (a heb fod yn gysylltiedig â'i gilydd) gan yr ICC yn ystod 2015-16.

<b>Bacteria / firws yn gyfrifol am yr afiechyd</b>	<b>Cyfanswm yr hysbysiadau 14-15.</b>	<b>Cyfanswm yr hysbysiadau 15-16.</b>
Campylobacter	177	157
Salmonella Typhimurium	2	0
Salmonella Enteritidis	1	1
Salmonellas Eraill	12	12
Giardia Lamblia	5	10
Cryptosporidium	25	16
Legionella	2	0
Firws Noro	1	0
E.Coli	0	2
Lysteria Monocytogenes	0	1
Shigellosis	0	1
<b>Cyfanswm</b>	<b>225</b>	<b>200</b>

#### 4.14 Digwyddiadau Diogelwch Bwyd

O bryd i'w gilydd, bydd yr ASB yn datgan digwyddiad diogelwch bwyd a byddant yn hysbysu'r awdurdodau bwyd am y rhain yn electronig drwy e-bost. Mae rhai o'r hysbysiadau er gwybodaeth yn unig ac mae rhai yn gwarantu ymdrech i ddelio a hwy.

Mae gan y Gwasanaeth weithdrefn wedi'i ddogfennu ar sut i ymdrin â Rhybuddion Digwyddiadau Diogelwch Bwyd wedi iddynt gael eu hysbysu drwy'r system Rhybuddion Bwyd.

Yn ystod 2015-16 cofnodwyd 76 digwyddiad diogelwch bwyd, un oedd angen gweithrediad pellach. Cafwyd cynnydd o 100% o hysbysiadau o'i gymharu ar flwyddyn flaenorol. Yn ystod yr un cyfnod derbyniwyd 87 hysbysiad diogelwch yn ymwneud ag alegrau, cynnydd o 210% ar y flwyddyn flaenorol. Un oedd angen gweithrediad pellach.

#### 4.15 Cyswllt â Sefydliadau Eraill

Mae'r uned bwyd yn cydweithio gyda'r grwpiau a sefydliadau cyswllt isod sy'n ymwneud â materion diogelwch bwyd. Gwneir hyn i sicrhau bod y gwasanaeth neu unrhyw gamau gorfodaeth a gymerir yng Ngwynedd yn gyson gydag awdurdodau lleol cyfagos. Yn ogystal, drwy gydweithio gellir adnabod gwelliannau i'r gwasanaeth a sefydlu pa hyfforddiant sydd angen / fwyaf addas ar gyfer cyfrannu at gymwysterau swyddogion.

- Llywodraeth Cymru
- Cyfarwyddwyr Gwarchod y Cyhoedd Cymru (DPPW)
- Grŵp Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru (WHoEH)
- Grŵp Penaethiaid Safonau Masnach (WhoTS)
- Panel Technegol Diogelwch Bwyd a Afiechydon Heintus Gogledd Cymru (PDBGC)
- Grŵp Penaethiaid Safonau Masnach Bwyd a Mesureg Gogledd Cymru
- Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymreig
- Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru (ICC)
- Grŵp Cyswllt Pysgod Cregyn Gogledd Cymru a Glannau Dyfrdwy (PCCGD)
- Awdurdod Trwyddedu Gangfeistri
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)
- Canolfan ar gyfer yr Amgylchedd, Pysgodfeydd, a Gwyddoniaeth Dyframaeth
- Dŵr Cymru (DC)
- Yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB)
- Uned Twyll Bwyd Cymru (UTBC)

#### **4.16 Hyrwyddo Diogelwch Bwyd**

Bydd yr uned bwyd yn ymgymryd ag ymarferion hyrwyddo iechyd sy'n cynnwys diogelwch bwyd, hylendid bwyd a safonau bwyd, yn ddibynnol ar yr adnoddau sydd ar gael.

Fel rhan o'r cynllun gweithio ar y cyd Gogledd Cymru mae'r uned yn cydweithio gydag Awdurdodau eraill y Gogledd i gwblhau prosiectau penodol. Mae nifer o brosiectau yn derbyn ystyriaeth ar gyfer 2016/7. Dau brosiect a gwblhawyd yn ystod 2015/6 ydoedd;

1. Cymorth i fusnesau gyda sgôr hylendid bwyd sâl yn canolbwyntio ar lanhau-archwiliadau wedi ei dargedu i hyrwyddo glanhau effeithiol.
2. Ymgrych codi ymwybyddiaeth am alegrau: Gweithdai i Weithredwyr Busnesau Bwyd.

Mae'r uned Diogelwch Bwyd yn cymryd rhan yn wythnos diogelwch bwyd 2016.

#### **4.17 Hyfforddiant Diogelwch Bwyd i Swyddogion**

Ar gyfer y flwyddyn nesaf bydd anghenion hyfforddiant staff yn cael ei adnabod drwy broses o werthuso unigol.

Yn ystod 2015/6 rheolwr yr uned fu'n gyfrifol am adnabod a threfnu hyfforddiant staff.

Ymdrechir i gydymffurfio'n llawn â gofynion Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) 2014 ran hyfforddiant staff a chymwysterau swyddogion awdurdodedig. Mae hyn yn cynnwys mynediad i hyfforddiant allanol ar destunau arbenigol gyda hyfforddiant ategol rheolaidd a hyfforddiant mewnol, i ddiweddarau swyddogion diogelwch bwyd awdurdodedig.

Dylid fod swyddogion sy'n gysylltiedig â gorfodi deddfwriaeth diogelwch bwyd felly yn derbyn o leiaf 10 awr o hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus yn ystod blwyddyn.

Dylid fo swyddogion sy'n ymwneud ac ymweliadau hylendid mewn eiddo cynhyrchu cynradd dderbyn 4 awr o hyfforddiant perthnasol mewn blwyddyn.

Yn ystod 2015/6 roedd pob swyddog wedi cwrdd ag isafswm gofynion hyfforddiant bwyd. Fe fu i dri swyddog dderbyn tystysgrif uwch mewn archwilio eiddo bwyd (safonau bwyd) ym Mhrifysgol Birmingham.

#### 4.18 Camau Ffurfiol Diogelwch Bwyd

Dylid unrhyw waith gorfodaeth gydymffurfio a Pholisi Gorfodaeth Gwarchod y CyhoeddGall hyn amrywio o gymryd camau anffurfiol hyd at gyflwyno hysbysiadau gwella hylendid bwyd ffurfiol, hysbysiadau camau adferol, hysbysiadau hylendid gwahardd brys neu erlyn.Y prif amcan yw sicrhau bod yr holl fusnesau bwyd yng Ngwynedd yn cynhyrchu bwyd sy'n ddiogel i'w fwyta a'u bod yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth diogelwch bwyd.

#### 4.19 Bwyd mwy Diogel Gwell Busnes - (SFBB)

Er mwyn cynorthwyo perchnogion busnesau bwyd wrth iddynt fodloni'r gofynion cyfreithiol a ddaeth i rym ym mis Ionawr 2006, mae'r ASB wedi cyflwyno system rheoli diogelwch bwyd symlach, sef SFBB. Awgrymir ganddynt y dylai hon gael ei hyrwyddo i fusnesau bwyd sydd angen help gyda gofynion dadansoddi peryglon.

Yn 2016-17, byddwn yn parhau i hyrwyddo defnyddio'r model rheoli diogelwch bwyd hwn (ble y byddo'n berthnasol) .

#### 4.20 Busnesau Newydd

Mae pob busnes bwyd newydd yng Ngwynedd yn destun ymweliad ymyrraeth a rhoddid cyngor ac arweiniad i sicrhau fod y busnesau hyn yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelwch bwyd o'r cychwyn cyntaf.

Yn 2016-17 byddwn yn parhau i ymweld â busnesau newydd, ymgymryd ag ymyrraethau a rhoi cyngor ac arweiniad i bob busnes newydd. Ymdrechir i gynnal ymyrraeth oddi fewn 28 niwrnod i'r busnes agor.

Mae cynnydd sylweddol wedi ei nodi mewn busnesau newydd yn y Sir dros y 5 mlynedd ddiwethaf sydd wedi rhoi pwysau ychwanegol sylweddol ar yr Uned Bwyd. Mae'r tabl drosodd yn manylu'r nifer o fusnesau bwyd newydd sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor ers 2011;

<b>Blwyddyn</b>	<b>Nifer o fusnesau bwyd newydd wedi cofrestru.</b>	
2011	76	
2012	111	(+ 46% ar y flwyddyn flaenorol)
2013	183	(+ 65 % ar y flwyddyn flaenorol)
2014	161	(-12% ar y flwyddyn flaenorol)
2015	219	(+36% ar y flwyddyn flaenorol)

Cyfartaledd y cynnydd blynyddol rhwng 2011-15 ydyw + 33.75%

Yn seiliedig ar hyn amcangyfrifir y bydd oddeutu 293 busnes newydd yn cofrestru ac angen archwiliad yn 2016/7.

## 5.0 Adnoddau


### 5.1 Dyraniad Ariannol

Mae'r tablau ar siarteri pastai isod yn arddangos gwir gost (net) cwblhau gwaith diogelwch bwyd i Gyngor Gwynedd yn ystod 2014/15 (tabl 1) a 2015/16 (tabl 2).

Arddangosir costau ar gyfer y gwahanol elfennau o'r gwaith a hefyd y gyfran o'r costau oedd yn cael ei wario ar staff (fel % o gyfanswm y gwir gost)

Tabl 1


Elfen Diogelwch Bwyd	Gwir Gost (Net) 2014/15
Hylendid Bwyd	£521,152 (£500,305 ar staff – 96%)
Safonau Bwyd	£69,836 (£62,154 ar staff – 89%)
Hylendid Bwyd mewn Cynhyrchwyr Cynradd	£39,012 (£37841 ar staff – 97%)
<b>Cyfanswm</b>	<b>£630,000</b>



Tabl 2

Elfen Diogelwch Bwyd	Gwir Gost (Net) 2015/16	Costau Staff	Costau trafello / cynnal swyddogion	Offer Cynnwys TG	Costau Cyfreithiol	Erill
Hylendid Bwyd	£442,009	£343,825 (77%)	£3,663 (1%)	£1,847 (1%)		
Safonau Bwyd	£156,089	£126,568 (81%)	£377 (1%)	£0		
Hylendid Bwyd mewn Cynhyrchwyr Cynradd	£34,078	£24,731 (73%)	£0	£30 (1%)		
<b>Total</b>	<b>£632,176</b>	<b>£495,124</b>	<b>£4,040</b>	<b>£1,877</b>	<b>£4,405</b>	<b>£126,730</b>

<b>Elfen Diogelwch Bwyd</b>	<b>Gwir Gost (Net) 2015/16</b>
Hylendid Bwyd	£442,009 (£343,825 ar staff – 77%)
Safonau Bwyd	£156,089 (£126,568 ar staff – 81%)
Hylendid Bwyd mewn Cynhyrchwyr Cynradd	£34,078 (£24,731 ar staff – 73%)
<b>Cyfanswm</b>	<b>£632,176</b>



Fel y gwelir roedd gwir gostau cynnal y gwasanaeth (costau net) wedi cynyddu gan £2176 rhwng 14/15 a 15/16. Bydd y gwir gost yn disgyn yn 16/17 gan fo swydd (Swyddog Gwarchod y Cyhoedd) yn cael ei dorri.

Mae'r newid yng nghostau staffio yn 2015/16 o'i gymharu â 2014/15 yn nhermau % y gwir gost yn deillio o ail strwythuro trefniadau ariannol Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd rhwng 2014 a 2016.

## 5.2 Lefelau Staff Presennol

Yn 2015/16 roedd 14 swyddog yn yr uned diogelwch bwyd, yn gyfystyr a 13 swydd llawn amser (CLLA) (cynnwys rheolwr ond nid yn cynnwys staff cynorthwyol).

Yn mis Awst 2015 penodwyd Swyddog Gwarchod y Cyhoedd i gwblhau gwaith Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd, gan gynnwys gwaith diogelwch bwyd.

Mae swyddogion oddi fewn Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn cyflawni gwaith dros ystod eang o gyfrifoldebau, yn unol â'u gall a'u hawdurdodiad. Bydd pedwar aelod o'r Uned Safonau Masnach yn treulio rhan o'u hamser yn cwblhau gwaith diogelwch bwyd.



Mae'r tablau isod yn manylu'r CLLA oedd ar gael i'r Cyngor i gwblhau gwaith diogelwch bwyd yn ystod 2015/16.

#### Hylendid Bwyd

<b>Swydd</b>	<b>CLLA</b>
Swyddog Iechyd yr Amgylchedd / Swyddog Gwarchod y Cyhoedd	4.7
Swyddogion Diogelwch Bwyd/ Swyddogion Gorfodaeth	2.7
Swyddog Samplu	0.4
Rheolwyr Gwarchod y Cyhoedd (Bwyd a Cefnogol)	0.8
Cyfraniad gan swyddi eraill	0.69
<b>Cyfanswm</b>	<b>9.29</b>

#### Safonau Bwyd

<b>Swydd</b>	<b>CLLA</b>
Swyddog Iechyd yr Amgylchedd / Swyddog Gwarchod y Cyhoedd	2.55
Swyddogion Diogelwch Bwyd/ Swyddogion Gorfodaeth	1.4
Rheolwyr Gwarchod y Cyhoedd	0.45
Cyfraniad gan swyddi eraill	0.14
<b>Cyfanswm</b>	<b>4.54</b>

#### Hylendid Bwyd mewn Cynhyrchwyr Cynradd

<b>Swydd</b>	<b>CLLA</b>
Swyddog Gorfodaeth	0.1
Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd	0.05
<b>Cyfanswm</b>	<b>0.15</b>

Mae Cyngor Gwynedd, ynghyd a Llywodraethau Lleol eraill Cymru, yn dilyn rhaglen o doriadau mewn ymdrech i gynnal gwasanaethau craidd mewn cyfnod lle fo cyllidebau cynghorau yn lleihau'n sylweddol. Fel rhan o raglen toriadau mae'r Cyngor wedi penderfynu torri swydd Swyddog Gwarchod y Cyhoedd o'r uned bwyd yn 2016/17. Bydd hyn yn digwydd ym mis Gorffennaf 2016.

Bydd y toriad yma yn cael effaith negyddol ar waith yr uned. Yn ystod 2015/16 roedd yr uned yn medru galw ar 11.85 CLLA i gwblhau gwaith diogelwch bwyd allan yn y maes. Ystyriwyd gyda'r ddarpariaeth yma y byddai holl archwiliadau hylendid bwyd mewn eiddo categori E wedi eu cwblhau oddi fewn 3 blynedd ac y byddant wedyn yn destun trefn rheolaeth amgen .

Yn yr un modd, roedd trefn wedi ei fabwysiadu lle byddai ôl-groniad mewn archwiliadau safonau bwyd mewn busnesau risg isel wedi ei dileu ymhen oddeutu 5 mlynedd.

Gyda cholli 1 CLLA a gosod cyfrifoldebau iechyd a diogelwch ychwanegol ar swyddogion yr uned mae oddeutu 1.5 CLLA yn llai nawr ar gyfer ymgymryd â gwaith diogelwch bwyd. Mae amserlen cwrdd â gofynion y Cod Ymarfer Bwyd yn mynd i lithro'n sylweddol.

I gwrdd yn llawn gyda gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) cynigir fod angen o leiaf 13 CLLA ar gyfer ymgymryd â gwaith diogelwch bwyd yn unig.

## 6.0 Sicrwydd Ansawdd

### 6.1 Gweithdrefnau a Ddogfennir

Bydd gweithgareddau gorfodaeth yn cael eu dogfennu a'u cadw yn electronig er mwyn sicrhau ansawdd a chysondeb ein prosesau, ein gweithdrefnau a'n cyfarwyddiadau gweithio. Mae gweithdrefnau a ddogfennir yn nodi'r cyfrifoldeb am y gwaith a wneir Gall staff dderbyn mynediad i'r dogfennau drwy gronfa ddata electroneg.

### 6.2 Asesiadau ac Archwiliadau

Bydd ansawdd ein polisiau a'n gweithdrefnau yn cael ei asesu mewn sawl ffordd, sef:

- Bydd Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd yn monitro amrywiaeth o waith gorfodaeth yn rheolaidd (h.y. archwiliadau, llythyrau, hysbysiadau gwella, sgoriau, graddau risg) a bydd yn rhoi adborth i'r swyddogion. Yn ogystal cwblheir archwiliad mewnol o'r gweithdrefnau a ddogfennwyd a'r cyfarwyddiadau gweithio fel fo'r angen / yn flynyddol.
- Archwiliadau a gwblheir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.
- Archwiliadau mewnol

Mae trefniadau monitro eraill yn cynnwys:

- Ymgynghoriad ac adborth gan gwsmeriaid drwy arolygon bodlonrwydd cwsmer i waith perthnasol yr uned bwyd.
- Ystyried cwynion a chanmoliaeth gorfforaethol ynghylch y gwasanaeth.
- Cyfarfodydd tîm rheolaidd i roi cyfle i drafod materion archwilio a gorfodaeth a hyrwyddo cysondeb cyffredinol.
- Ymarferion cysondeb yn enwedig ar gyfer y graddau risg.
- Adolygiad gan gydweithwyr

Yn ystod wythnos olaf Mis Chwefror 2016 cynhaliodd yr ASB archwiliad llawn o'r Uned Bwyd.

## 7.0 Adolygiad

### 7.1 Adolygu yn erbyn y Cynllun Gwasanaeth

Bydd y cynllun darparu gwasanaeth yn destun adolygiad blynyddol. Ystyrir yr adolygiad yn rhan o'r broses cynllunio busnes blynyddol.

Mae'r perfformiad yn cael ei fonitro yn rheolaidd gydag adolygiad rheoli chwarterol o'r cynnydd. Cwblheir adroddiadau perfformiad sy'n manylu ar y perfformiad yn erbyn dangosyddion cenedlaethol a lleol. Drwy ddilyn y broses yma medr materion allweddol sy'n codi ym mhob chwarter gael eu hadnabod fel fo modd mynd i'r afael â hwy.

### 7.2 Adolygu Perfformiad yn erbyn Cynllun Gwasanaeth 2015-16

Mae Atodiad 1, 2 a 3 yn cynnwys dadansoddiad o ddarpariaeth a pherfformiad y gwasanaeth yn ystod 2015-16.

Roedd perfformiad y Gwasanaeth yn 2015-16 yn gyffredinol dda. Llwyddwyd i gynnal 99.1% o archwiliadau risg uchel hylendid bwyd a 100% o archwiliadau risg uchel safonau bwyd. Ar gyfer busnesau newydd, cafodd 86% eu hymweld ar gyfer hylendid bwyd oddi fewn 28 niwrnod i agor. Y targed ar gyfer archwiliadau hylendid bwyd mewn eiddo risg uchel ydyw 100% ac ar gyfer busnesau newydd, dylid 90% dderbyn ymyrraeth oddi fewn 28 diwrnod o agor.

Yn niwedd 2015/16 roedd 97.95% o fusnesau bwyd yng Ngwynedd yn cydymffurfio'n fras a rheolau bwyd.

Mae ardaloedd eraill a ddynodwyd ar gyfer gwelliannau yng nghynllun 2015/16 wedi cael eu rhestru isod, ynghyd ag eglurhad o beth mae'r Awdurdod wedi ei gyflawni i sicrhau cynnydd.

<b>Ardal Allweddol</b>	<b>Camau Gweithredu / Canlyniadau</b>
Archwiliad Ffocws ASB 2014 - datrys y problemau adnabuwyd.	Rhaglen gwelliannau wedi ei gwblhau.
Cynyddu'r nifer o ymyraethau safonau bwyd.	Yn 2014-15 cwblhawyd 522 o archwiliadau safonau bwyd.  Yn 2015-16 cafodd 612 eu cwblhau.
Ehangu ar y cynllun sgorio hylendid bwyd i gynnwys eiddo risg isel.	Wedi ei wneud. Rhai eiddo categori risg E heb eu sgorio eto ond bydd yr eiddo yma yn derbyn blaenoriaeth.
Parhau i gysylltu gyda busnesau newydd yn gynnar ym mywyd y busnesau hynny.	Ymdrech yn parhau ond angen gwella'r perfformiad i gwrdd ar targed.
Rhaglen waith cynnal ymyraethau hylendid a safonau bwyd ar y cyd.	Wedi ei weithredu.
Annog cynhyrchwyr cynradd i fabwysiadu safonau uchel mewn perthynas o hylendid bwyd.	Wedi ei wneud ond i raddfa fechan.

Roedd rhai o archwiliadau hylendid eiddo bwyd categori risg D heb eu cyflawni ddiwedd y flwyddyn. Yn y mwyafrif cafwyd trafferth derbyn mynediad. Bydd yr archwiliadau hyn wedi eu cwblhau yn chwarter 1 2016/17.

Mae nifer sylweddol o eiddo bwyd categori risg E heb dderbyn ymyrraeth hylendid bwyd fel y dylent. Bydd yr ymdrech i sicrhau eu bod yn derbyn ymyrraeth yn parhau flwyddyn yma ond bydd y lleihad yn nifer y staff yn debygol o gael effaith ar hyn.

Yn yr un modd, mae nifer fawr o eiddo bwyd sydd yn disgyn islaw categori risg safonau bwyd C heb dderbyn ymyrraeth amserol, yn unol ar gofynion. Bydd ymdrech yn parhau i ddelio a hwy, lle fo adnoddau yn caniatáu hynny.

### **7.3 Llwyddiant**

Yn ychwanegol i'r hyn a amlinellir yn Atodiad 1, 2 a 3, mae llwyddiannau allweddol y gwasanaeth dros gyfnod y cynllun y llynedd yn cynnwys:

- Cymryd rhan yn yr wythnos diogelwch bwyd cenedlaethol drwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol fel teclyn i gyfathrebu negeseuon allweddol.

- Cymryd rhan mewn mentrau'r ASB fel 'Dewiswch yn ddoeth ar gyfer dydd San Ffolant.'
- Cwblhawyd 99.1% o archwiliadau risg uchel hylendid bwyd a 100% o archwiliadau safonau bwyd.
- Gweithredu'r Cynllun Graddio Hylendid Bwyd Cenedlaethol
- Parhau i weithredu Canllaw Traws-halogi'r ASB
- Cymryd rhan mewn prosiect gweithio ar y cyd Gogledd Cymru sef cyngori busnesau sut i lanhau'n gywir (eiddo sy'n perfformio'n sâl). Cwblhawyd 17 ymweliad.
- Cymryd rhan mewn prosiect Gogledd Cymru arall; cynnal gweithdai alegrau i fusnesau yn Nolgellau a Caernarfon.
- Cynnal archwiliadau o fusnesau bwyd mewn digwyddiadau mawr yn y Sir fel Gŵyl Rhif 6, Gŵyl Glass Butter Beach a Gŵyl Fwyd Criccieth.
- Gyrru llythyrau i fusnesau ethnig yn cynnwys gwybodaeth / cyngor yn ymwneud ag amnewid cnau Groegaidd gyda chnau dear wedi i dor cyfraith gael ei adnabod yn dilyn samplio ffurfiol mewn nifer o eiddo.
- Cynorthwyo'r ASB wrth iddynt gynnal archwiliad llawn o waith yr uned bwyd.
- Erlyniadau llwyddiannus - dau fusnes oedd wedi torri cyfraith hylendid bwyd a thorri cyfraith safonau bwyd.
- Cafwyd fo'r nifer o eiddo bwyd yng Ngwynedd gyda sgôr o 4 neu 5 yn Ebrill 2016 yr un fath ar Ebrill cynt (2015), 93%. Mae hyn yn arddangos fod y cynllun wedi cael effaith bositif yn nhermau gwella a chynnal safonau hylendid bwyd yng Ngwynedd. Mae gwaith yn parhau i fynd i'r afael a'r 7% o fusnesau sydd heb sgôr dda neu dda iawn.

#### 7.4 Meysydd i'w Gwella 2016-17

Adnabuwyd yr ardaloedd canlynol ar gyfer ymdrech penodol yn 2016/17:

- Gweithredu a datblygu gwelliannau adnabuwyd yn ystod archwiliad llawn o'r Uned gan yr ASB ym mis Chwefror 2016.
- Cynnal archwiliad hylendid bwyd a safonau bwyd yn yr holl eiddo risg uchel sydd wedi eu rhaglennu ar gyfer ymyrraeth.
- Cynyddu'r nifer o ymyraethau safonau bwyd a gwblheir.
- Ehangu ar waith y cynllun sgorio hylendid bwyd i gynnwys busnesau risg isel.
- Parhau i ymgymryd ag arolwg bodlonrwydd cwsmer yn y meysydd gwasanaeth bwyd perthnasol
- Archwilio o leiaf 90% o fusnesau newydd oddi fewn i 28 diwrnod iddynt agor neu i ni fod yn ymwybodol ohonynt.

- Datblygu'r rhaglenni cydweithio ar gyfer diogelwch bwyd a safonau bwyd fel y gellir ymgymryd ag archwiliadau yn gydamserol gan fwy o swyddogion.
- Parhau i hybu cynhyrchwyr cynradd i fabwysiadu ymarferion hylendid bwyd o safon.
- Gorfodaeth Rheoliadau Sgorio Bwyd (Hybu Sgorio) (Cymru) 2016 sydd yn dod i rym ar y 28ain o Dachwedd 2016. Mae'r Rheoliadau yn mynnu fod busnesau bwyd sy'n gwerthu prydau i'w fwyta oddi ar yr eiddo i gyhoeddi datganiad dwyieithog ar eu deunydd cyhoeddusrwydd yn cyfeirio cwsmeriaid at rhan o wefan yr ASB sy'n ymwneud a sgorio hylendid bwyd.
- Bydd y gofyn i gyhoeddi gwybodaeth maeth ar gynhwysion bwyd wedi ei bacio flaenllaw yn dod yn gyfraith ar y 13fed o Ragfyr 2016. Bydd angen i swyddogion gynghori cynhyrchwyr bwyd / gwerthwyr o'r gofynion newydd a lle fo angen, eu gorfodi.
- Monitro a gorfodi'r gofyn i arddangos sgôr hylendid bwyd mewn buusnesau bwyd ar draws y Sir.
- Sicrhau fod digon o adnodd yn nhermau CLLA a cymhwysterau i orfodi deddfwriaeth / cynnig cyngor mewn perthynas a meysydd arbennigol fel pysgod cregyn a safloedd potel dwr ffynnon.

## 7.5 Ffactorau sy'n debygol o gael effaith ar ddarpariaeth gwasanaeth yn ystod 2016-17

Ffactorau sy'n debygol o gael effaith ar ddarpariaeth gwasanaeth:

- a) Mae'r Cyngor wedi penderfynu torri dwy swydd o'r Uned Bwyd. Bydd un swydd swyddog iechyd a diogelwch ac un swydd swyddog gwarchod y cyhoedd gyda chyfrifoldeb am hylendid bwyd, safonau bwyd ac iechyd a diogelwch yn cael ei ddileu . Bydd y gwaith sy'n cael ei gwblhau gan swyddogion yn y swyddi hyn yn cael ei rannu ymysg aelodau eraill o'r tîm .Mae'n anorfod y bydd hyn yn creu mwy o bwysau ar unigolion fydd yn parhau mewn gwaith a gall targedi perfformiad gael eu methu. Y canlyniad tebygol ydyw y bydd y Cyngor yn ei chael hi'n anodd cwrdd â'i oblygiadau statudol fel y manylir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) 2014 yn ystod 2016-17 ac wedi hynny.
- b) Mae un aelod o staff i ffwrdd o'r gwaith tan Mis Hydref ac mae aelod arall wedi derbyn swydd newydd tu allan i'r Cyngor ac yn ymadael ym mis Gorffennaf . Byddwn yn edrych i lenwi'r swydd hon ond bydd y broses penodi yn cymryd peth amser.

- c) Cael mynediad i eiddo. Mae proffil eiddo yn newid drwy'r adeg, yn bennaf oherwydd yr hinsawdd ariannol bresennol. Mae eiddo'n debygol o agor am lai o amser a dod yn fwy tymhorol eu natur, neu agor tu allan i oriau swyddfa arferol. Mae oddeutu 350 o fusnesau bwyd tymhorol yng Ngwynedd. I reoli hyn, cynlluniwyd fod ymyraethau ar gyfer eiddo tymhorol yn cael eu rhaglennu cyn mis Hydref. O ganlyniad mae'r llwyth gwaith ymyraethau yn uwch dros fisoedd yr haf. Mae archwiliadau tu allan i oriau swyddfa arferol yn debygol o gynyddu hefyd. Yn anffodus bydd y ddwy swydd yn cael eu torri yn ystod y cyfnod prysuraf. Fel mae pethau'n sefyll mae'n annhebygol y byddwn yn medru cwblhau holl archwiliadau eiddo risg uchel sy'n ofynnol ohonom dros y cyfod ac wedi hynny.
- d) Mae nifer y busnesau bwyd newydd sy'n agor yn cynyddu. Nid yw nifer fawr o fusnesau yn gynaliadwy ac maent yn cau gyda busnesau eraill yn agor yn eu lle. Mae hyn yn creu pwysau sylweddol ychwanegol ar y gwasanaeth. Ar gyfer eleni amcangyfrifir y bydd oddeutu 290 busnes newydd angen archwiliad, cynnydd o 34% ar gyfanswm 15/16.
- e) Y nifer cynyddol o ddigwyddiadau yng Ngwynedd sydd â phroffil uchel e.e. Gŵyl Rhif 6 a Glass Butter Beach - ymyrraethau rhagweithiol ac ymatebol.
- f) Diffyg swyddogion gyda chymwysterau perthnasol i ymgymryd ag archwiliadau hylendid bwyd mewn cynhyrchwyr cynradd.
- g) Llai o adnodd staff i ymgymryd â mwy o waith mewn gwahanol feysydd, e.e. Hylendid Bwyd, Safonau Bwyd, iechyd a Diogelwch a Rheolaeth Cyflenwadau Dwr Preifat.
- h) Sefydlu a chynnal cymwysterau staff a cwrdd a gofynion hyfforddi.
- i) Mae'r cod ymarfer cyfraith bwyd (Cymru) 2014 yn cael ei adolygu. Mae'n debygol y bydd y fersiwn diwygiedig yn cynnwys newidiadau ran sefydlu cymwysterau swyddogion ar gyfer gwaith gorfodaeth. Disgwylir y bydd y cod newydd yn cael ei gyhoeddi yn 2016.

## ATODIAD 1- Hylendid Bwyd

### PERFFORMIAD 2015-16

#### Rhaglen Archwiliadau Diogelwch Bwyd

Roedd y perfformiad yn dderbyniol gyda 99.1% o'r archwiliadau risg uchel wedi cwblhau mewn amser. Y targed ydy 100%. Ni fu i 5 archwiliad gael ei gwblhau oddi fewn targed oherwydd problemau mynediad.

Yn 2015/16 roedd 97.95% o'r busnesau yn disgyn o fewn y categori cydymffurfio'n fras gyda deddfwriaeth hylendid bwyd, yn y flwyddyn flaenorol y ffigwr ydoedd 97.2%

Yn ystod y flwyddyn bu i 215 o eiddo bwyd gau.

Mae'r tabl isod yn manylu'r nifer o ymyraethau a gwblhawyd dros y flwyddyn ac unrhyw ymyraethau oedd heb eu cyflawni ar ddiwedd y flwyddyn.

<b>Categori Risg</b>	<b>Cwblhau</b>	<b>Heb gwblhau</b>
A Risg Uchel	70	0
B Risg Uchel	145	1
C Risg Uchel	747	7
D	260	7
E	233	195
Angen asesiad	293	25
<b>Cyfanswm</b>	<b>1748</b>	<b>235</b>



### Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cenedlaethol

Proffil sgorau hylendid bwyd yng Ngwynedd ym mis Ebrill 2016		
5	Da iawn	1396
4	Da	278
3	Yn gyffredinol foddhaol	78
2	Angen gwella	11
1	Gwaith gwella mawr yn angenrheidiol	29
0	Angen gwella ar frys	1
	Heb Sgôr /Ddim yn y cynllun	208

Nifer o geisiadau am ymweliadau i ail sgorio a gwblhawyd: 14, 12 yn llai na'r flwyddyn flaenorol.

Nifer yr apeliadau yn erbyn y sgôr:7, 5 yn fwy na 14/15.

### Data arall yn ymwneud â'r galw am y Gwasanaeth Bwyd

#### Ymyraethau

Archwiliadau	1292
Gwiro a goruchwyliaeth	218
Ymweliadau samplu	107
Cyngor ac Addysg	83
Gwybodaeth / casglu gwybodaeth	48
<b>Cyfanswm</b>	<b>1249</b>

#### Ymchwiliadau Cwynion am Fwyd

Cwynion am fwyd	51
Cwynion am hylendid yr eiddo	21

#### Mathau eraill o geisiadau am wasanaeth

Cyngor i fusnesau	563
Hysbysiadau Twbercwlosis	36
Tystysgrifau Allforio	5
Ymgynghoriadau Cynllunio	4
Dogfennau Cofrestru Cregynbysgod	37
Afiechydon heintus	17
Ildio Bwyd yn Wirfoddol	1
Cyngor am gyrsiau hyfforddiant	6
Rhybuddion Diogelwch Bwyd	76

### Rheolaeth ac ymchwilio i Achosion o Glefydau Heintus yn Gysylltiedig â Bwyd

Hysbysiadau Achlysurol	199
Achosion o Glefydau	0

### Camau Gorfodaeth

Gwella	15
Camau Adferol	2
Rhybuddion Ysgrifenedig	972
Cau'n Wirfoddol	4
Ildio Bwyd	1
Erlyniadau a gwblhawyd	2

### Perfformiad yn y Meysydd i'w Gwella

Meysydd i'w gwella	Canlyniad
Cynnal y lefel ymyrraeth o ran hylendid bwyd mewn eiddo risg uchel [ABC] ar 100%	99% wedi ei cwblhau
Cynnal bodlonrwydd y cwsmer	Roedd 99% o'r cwsmeriaid oedd wedi ymateb yn dweud eu bod yn fodlon neu yn fodlon iawn gyda Gwasanaeth draws Gwarchod y

	Cyhoedd.
--	----------

**Atodiad 2- Safonau Bwyd**

## PERFFORMIAD 2015-16

### Rhaglen Archwiliadau Safonau Bwyd

Cafodd 100% o archwiliadau risg uchel eu cwblhau.

Mae'r tabl isod yn manylu nifer yr ymyraethau safonau bwyd rhaglunedig gafodd eu cwblhau dros y flwyddyn ar nifer o ymyraethau oedd heb eu cwblhau ar ddiwedd y flwyddyn.

Categori Risg	Cyflawnwyd	Heb eu cwblhau
A Risg uchel	4	0
B Risg Canolig	163	233
C Risg isel	261	362
Heb eu asesu	219	82
<b>Cyfanswm</b>	<b>647</b>	<b>677</b>

### Data safonau arall yn ymwneud â'r galw am y Gwasanaeth Safonau Bwyd

#### Ymyraethau

Archwiliadau	625
Gwirio a goruchwyliaeth	13
Ymweliadau samplu	4
Cyngor ac Addysg	5
Gwybodaeth / casglu gwybodaeth	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>612</b>

#### Archwiliadau Cwynion Safonau Bwyd.

Cwynion	27
---------	----

## Mathau eraill o geisiadau am wasanaeth

Hysbysiadau alegrau	87
---------------------	----

## Camau Gorfodaeth

Rhybuddion Gwella	0
Rhybuddion ysgrifenedig (heb fod ynghlwm i adroddiad hylendid bwyd)	172
Erlyniadau	1
Atafaelu / dal / Ildio Bwyd	0

<b>Meysydd i'w gwella</b>	<b>Canlyniad</b>
Cynnal y lefel ymyrraeth o ran hylendid bwyd mewn eiddo risg uchel [A] ar 100%	Cyflawnwyd
Cynnal bodlonrwydd y cwsmer	Roedd 99% o'r cwsmeriaid oedd wedi ymateb yn dweud eu bod yn fodlon neu yn fodlon iawn gyda gwasanaeth traws Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd

## **Atodiad 3 – Hylendid Bwyd mewn Cynhyrchwyr Cynradd**

### **PERFFORMIAD 2015-16**

#### **Rhaglen Archwiliadau**

Nifer o archwiliadau a gwblhawyd : 118

Nifer o adroddiadau: 118.

Dim camau gorfodaeth wedi eu cymryd.